Gyda chefnogaeth

Ymddiriedolaeth Rhys Davies

Prifysgol Abertawe Swansea University | Sefydliad Diwylliannol Cultural Institute

***Cystadleuaeth Stori Fer Rhys Davies 2024***

***Rheolau, Telerau ac Amodau Mynediad***

Mae Cystadleuaeth Stori Fer Rhys Davies yn cydnabod y straeon byrion gorau yn yr iaith Saesneg gan ysgrifenwyr yng Nghymru/o Gymru, mewn unrhyw arddull ac am unrhyw bwnc a hyd at 5,000 o eiriau. Rhaid bod ceisiadau heb eu cyhoeddi o'r blaen mewn print neu ar-lein, gan gynnwys blogiau personol neu'r cyfryngau cymdeithasol, heb eu darlledu neu'n rhan o gystadleuaeth

Mae'n bleser mawr gan Sefydliad Diwylliannol Prifysgol Abertawe i rheoli wobr nodedig hon, a sefydlwyd yn wreiddiol ym 1991, ar ran Ymddiriedolaeth Rhys Davies ac ar y cyd â Parthian Books.

Roedd Rhys Davies, a anwyd ym Mlaenclydach ger Tonypandy yng Nghwm Rhondda, yn un o ysgrifenwyr rhyddiaith Saesneg mwyaf ymroddedig, toreithiog a dawnus Cymru. Ysgrifennodd dros gant o straeon, ugain nofel, tair nofel fer, dau lyfr topograffaidd am Gymru, dwy ddrama a hunangofiant.

**Dyddiad Iau 15$^{fed}$ Chwefror 2024 am hanner nos**
**Beirniad 2024: Rebecca F. John**

****I fod yn gymwys, rhaid eich bod wedi cael eich geni yng Nghymru, wedi byw yng Nghymru ers dwy flynedd neu fwy neu mae’n rhaid eich bod yn byw yng Nghymru ar hyn o bryd****

**Gwobrau**

- **Gwobr 1af -** £1,000 o bunnoedd sterling a chaiff y cais buddugol ei gyhoeddi mewn antholeg o straeon byrion a gyhoeddir gan Parthian Books yn 2024.
- **11 x Gwobr arall/Rownd derfynol gwobrau -** £100 yr un a chaiff y ceisiadau eu cyhoeddi mewn antholeg o straeon byrion a gyhoeddir gan Parthian Books yn 2024.

**Darllenwch Reolau ac Amodau a Thelerau'r gystadleuaeth cyn cyflwyno eich cais. Drwy gyflwyno cais, rydych yn cydnabod eich bod yn cytuno â'r rheolau a'r amodau a thelerau a amlinellir isod.**

Os oes gennych ymholiadau, e-bostiwch rdshortstory@abertawe.ac.uk cyn cyflwyno eich cais.

- Mae Cystadleuaeth Stori Fer Rhys Davies yn cydnabod y straeon byrion gorau yn yr iaith Saesneg, nad ydynt wedi'u cyhoeddi, gan ysgrifenwyr o Gymru. Gallant fod mewn unrhyw arddull ac am unrhyw bwnc a hyd at 5,000 o eiriau. Rhaid bod ceisiadau heb eu cyhoeddi o'r blaen mewn print neu ar-lein, gan gynnwys blogiau personol neu'r cyfryngau cymdeithasol, heb eu darlledu neu'n rhan o gystadleuaeth.
- Rhaid bod yr ymgeiswyr wedi cael eu geni yng Nghymru, wedi byw yng Nghymru ers dwy flynedd neu fwy neu mae'n rhaid eu bod yn byw yng Nghymru ar hyn o bryd.
- Gellir cyflwyno ceisiadau o 9fed Tachwedd 2023 ymlaen a'r dyddiad cau yw 15fed Chwefror 2024 am hanner nos (Amser Prydeinig Safonol). Ni chaiff ceisiadau a dderbynnir ar ôl yr amser hwn eu hystyried.
- Cyhoeddir enwau'r ymgeiswyr ar restr fer Cystadleuaeth 2024 ym mis Mehefin 2024.
- Cyhoeddir enw enillydd Cystadleuaeth 2024 ym mis Medi 2024.
- Caiff yr holl geisiadau eu beirniadu'n ddienw.
- Y ffi gystadlu yw £8 y stori, ar wahân i'r rhai y dyfernir lle i gystadlu am ddim iddynt. Pan fyddwch yn talu eich ffi gystadlu, bydd cyfeirnod unigryw yn cael ei greu. https://www.eventbrite.co.uk/e/2024-rhys-davies-short-story-competition-tickets-744036973617. Dylech chi gynnwys y cyfeirnod yn adran berthnasol y ffurflen gais ar-lein.
- Mae 40 lle ar gael am ddim i ysgrifenwyr incwm isel sy'n ennill £16,000 neu lai'r flwyddyn. Bydd y lleoedd hyn yn cael eu dyfarnu ar sail y cyntaf i'r felin (un lle am ddim fesul ymgeisydd). Os hoffech gael eich ystyried am un o'r lleoedd hyn, e-bostiwch: rdshortstory@abertawe.ac.uk. Does dim rhaid datgan eich incwm.
- Does dim terfyn ar nifer y straeon byddwch yn cael eu cyflwyno.

- Gallwch gyflwyno uchafswm o dair stori i'r gystadleuaeth hon
- Rhaid cyflwyno ceisiadau ar y ffurflen ar-lein yn https://forms.gle/Myys7jKdt7GTC8B8A .
- Rhaid i bob ymgeisydd fod yn 18 oed neu'n hŷn ar y dyddiad cau (15fed Chwefror 2024).
- Nid oes hawl gan y canlynol i gystadlu: cyflogeion Prifysgol Abertawe, noddwyr y Gystadleuaeth, neu gwmni neu unigolyn arall sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweinyddu'r Gystadleuaeth ac aelodau eu haelwydydd.
- Ni fydd cyfieithiad o waith a ysgrifennwyd mewn iaith neu ieithoedd heblaw am Saesneg yn gymwys.
- Dylid lanlwytho ceisiadau ar ffurf PDF, .doc neu docx mewn ffont Arial 12pt â rhifau tudalennau a theitl eich stori yn y pennyn. Dylai cyfanswm y geiriau ymddangos ar dudalen 1. Ni ddylai eich enw ymddangos yn unrhyw le yn eich stori.
- Dylai teitl eich cais fod yn y fformat hwn: 'RDStory 2024 - Teitl eich Stori'. Er enghraifft:  'RDStory 2024 - Blue Hearts'.

**Amodau'r Wobr**

- Bydd yr enillydd + 11 gwobr arall / rownd derfynol yn gwneud unrhyw ymddangosiadau personol yn rhad ac am ddim y gellir eu cytuno ar y cyd rhwng yr ysgrifennwr a Threfnydd y Digwyddiad.
- Mae'r enillydd + 11 gwobr arall / rownd derfynol yn cytuno i ddarparu bywgraffiad byr a ffotograff cydraniad uchel o fewn saith niwrnod i glywed eu bod wedi cyrraedd y rhestr fer.
- Ni chaniateir cyhoeddi straeon buddugol yn unrhyw le arall tan fis Medi 2025.

**Cyffredinol**

- At ddibenion y Rheolau Cystadlu hyn, mae 'Trefnydd y Digwyddiad' yn golygu Prifysgol Abertawe (elusen gofrestredig rhif 1138342).
- Mae'r holl ffioedd cystadlu sy'n daladwy o dan y rheolau cystadlu hyn yn cynnwys TAW.
- Dylid anfon gohebiaeth mewn perthynas â'r gystadleuaeth hon i: rdshortstory@abertawe.ac.uk
- Mae'r Gystadleuaeth yn cydnabod pwysigrwydd diogelu'r wybodaeth bersonol sy'n cael ei chasglu at ddiben ei chynnal, ac mae mesurau ar waith i sicrhau y cymerir camau i amddiffyn diogelwch, uniondeb a phreifatrwydd y data personol a gaiff ei gasglu a'i brosesu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar dudalennau gwe'r

Gystadleuaeth https://www.swansea.ac.uk/cy/sefydliad-diwylliannol/cystadleuaeth-stori-fer-rhys-davies/.

- Ni fydd ceisiadau nad ydynt yn glynu wrth Reolau ac Amodau a Thelerau'r Gystadleuaeth yn cael eu hystyried.
- Gallwch gyflwyno uchafswm o dair stori i'r gystadleuaeth hon
- Dim ond y rhai sy'n cyrraedd y rownd derfynol a'r enillydd cyffredinol fydd yn cael eu hysbysu.
- Mae penderfyniad y beirniad gwadd yn derfynol.
- Ni fydd trefnydd y digwyddiad na'r barnwr gwadd yn gohebu ynghylch y wobr.

**Amrywio'r Rheolau**

- Mae'r Rheolau yn y ddogfen hon yn amlinellu rheolau cystadlu Cystadleuaeth Stori Fer Rhys Davies 2024, ac maent yn disodli pob rheol, cytundeb, dealltwriaeth neu drefniant blaenorol mewn perthynas â'r Gystadleuaeth hon.
- Mae Trefnydd y Digwyddiad yn cadw'r hawl i amrywio'r rheolau gan wneud addasiadau rhesymol ar gyfer force majeure, gan gynnwys pandemigau.